



Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06/01/2016

Annwyl Glerc,

Ymgynghoriad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid fel rhan o'i ymgynghoriad i'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Cyd-destun

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg). Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio.

Defnydd yr Ombwdsmon o'r Gymraeg

Noda'r Comisiynydd nad yw'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru, a hynny er bod statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Er nad yw'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau ar sail statws cyfansoddiadol, mae gan yr Ombwdsmon rôl i wasanaethu ar ran y cyhoedd. Dylai fod yn ddisgwyliad, yn hytrach nag yn fater o ddisgresiwn, bod deilydd swydd gyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau.

Dymuna'r Comisiynydd weld cyfeiriadau penodol tuag at ddefnydd yr Ombwdsmon o'r Gymraeg yn y Bil drafft. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa ddyletswyddau sydd ar yr Ombwdsmon i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn croesawu pe bai'r Pwyllgor yn gosod dyletswyddau penodol ar yr Ombwdsmon mewn cyswllt â'r defnydd o'r Gymraeg yn y Bil drafft. Posibiliad arall o gyflawni'r un nod fyddai i'r Ombwdsmon ddod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau fel sydd wedi digwydd yn achos yr Archwilydd Cyffredinol. e.e. un o ofynion Adran 8 y Bil drafft yw creu canllawiau at ddefnydd pobl sy'n dymuno gwneud cwyn. Pe caiff y Bil gymeradwyaeth, mae'n debygol y bydd yr Ombwdsmon yn caniatáu cwynion ar lafar yn y dyfodol. Yng ngoleuni'r newid hwn, dylai'r Bil sicrhau fod dyletswydd i roi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg mewn perthynas â llunio'r canllawiau.

Barn y Comisiynydd yw ei bod hi'n hanfodol felly bod y Bil drafft yn cynnwys ac yn glir ynghylch dyletswyddau'r Ombwdsmon wrth ddefnyddio'r Gymraeg pan fo'n gweinyddu a gwasanaethu ei swyddogaethau.

Materion y caniateir ymchwilio iddynt

Mae ymchwilio i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn dod dan swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw adran 11, ac yn benodol adran 11(3), yn eglur o ran pa bwerau sydd gan yr Ombwdsmon yng nghyswllt materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae risg felly y creir gwrthdaro a chamddealltwriaeth rhwng swyddogaethau'r Comisiynydd a'r Ombwdsmon.

Hefyd mae angen rhoi sylw i sicrhau eglurder a dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch unrhyw wahaniaethau sydd yn rôl yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd wrth ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Ar y pwynt hwn, gellid cwestiynu pa ddiben sydd i gynnwys cylch gorchwyl dros y Gymraeg o fewn cylch gorchwyl yr Ombwdsmon o gwbl.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hoffai'r Comisiynydd hefyd dynnu sylw at anghysondebau yng ngeiriad Adran 11 (3) y Bil, rhwng y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn y fersiwn Gymraeg ceir "..., mae i'w hystyried at ddibenion isadran (1)(a) yn swyddogaeth a gyflawnir..." tra bod y fersiwn Saesneg yn nodi "..., it is to be regarded for the purposes of subsection (1)(a) as discharged..." Ymddengys felly bod gair ar goll yn y fersiwn Saesneg.

Gweithio cyfochrog a chydweithio

Mae Mesur y Gymraeg a'r Bil drafft yn caniatáu i'r Comisiynydd a'r Ombwdsmon weithio yn gyfochrog neu ar y cyd os yw "pwnc ymchwiliad" neu "fater" yn berthnasol i swyddogaethau'r ddau sefydliad. Llofnododd y Comisiynydd a'r Ombwdsmon memorandwm o gyd-ddealltwriaeth yn 2013 yn nodi sut byddai'r ddau sefydliad yn mynd ati i gydweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gwrthdaro rhwng swyddogaethau.

Mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n werth nodi y dywed Mesur y Gymraeg bod "*ymchwiliad*" ("*investigation*")...*yn cynnwys archwiliad ac ymholiad, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli'n unol â hynny;*"¹

Fodd bynnag, ymddengys bod y geiriad a ddefnyddir i egluro trefniadau cydweithio'r Ombwdsmon a'r Comisiynydd yn amrywio rhwng y Bil drafft² a Mesur y Gymraeg³. Yn ogystal â hyn, ceir llawer mwy o fanylder yn adran 20 Mesur y Gymraeg ynghylch gofynion cydweithio'r Ombwdsmon a'r Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd yn awyddus i sicrhau cyddestun cydweithio clir a chyson rhwng yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd, ac felly gofynnir ichi ystyried cysoni'r ddau fel nad oes anawsterau cydweithio nas bwriadwyd yn codi wedi pasio'r Bil drafft.

Nid yw'r Comisiynydd yn rhagweld unrhyw broblem gyda'r diffiniad newydd o "aelod o'r cyhoedd". Er bod y diffiniad yng nghyd-destun cwynion yn amrywio ychydig i'r hyn sydd yn y Mesur, ymddengys bod y ddau ddiffiniad yn ddigon eang fel na ddylai achosi unrhyw anawsterau pe bai'r Ombwdsmon a'r Comisiynydd yn penderfynu cydweithio.

Sylwadau eraill

Mae adran 4 Mesur y Gymraeg yn rhestru pwerau cyffredinol y Comisiynydd, gan gynnwys pŵer penodol i ymchwilio ar ei liwt ei hun. Caiff y Comisiynydd ymchwilio mewn dwy ffordd: cynnal ymholiad⁴ neu ymchwiliad.

Mae gan y Comisiynydd nifer o ddogfennau e.e. Polisi Gorfodi a meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliadau ac ymholiadau a all fod o ddefnydd i'r Ombwdsmon. Gall y Pwyllgor

¹ Adran 21 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

² Adran 62,63 a 64, Bil Drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

³ Adran 20-22, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

⁴ Adran 7, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

ddod o hyd o hyd i nifer o'r dogfennau a gweithdrefnau hynny ar wefan y Comisiynydd.⁵ At hynny, byddai'r Comisiynydd yn fodlon ac yn barod i rannu profiadau gyda'r Ombwdsmon mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau ac ymholiadau.

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau i ymchwiliad y Pwyllgor ar y Bil ddrafft. Nodaf hefyd fy mod yn fodlon rhoi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor os yw'n dymuno.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

⁵ <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx>